

Digimap for Schools

Sgwâr y Flwyddyn

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llun o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Sgwâr y Flwyddyn

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Canolbwyntio ar un sgwâr grid ac amlygu ei nodweddion. Wedyn, disgrifir y nodweddion hyn gan ddefnyddio iaith gadarnhaol mewn tasg ysgrifennu creadigol.	Gellir ei wneud gydag unrhyw ddarn o fap Prydain Fawr, gan gynnwys yn lleol ger yr ysgol.

Gwybodaeth / Sgiliau	Lefelau closio/pellhau, symbolau map, argraffu mapiau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Symbolau/Llythrennedd Mapiau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Lleoli lleoedd ac amgylcheddau drwy ddefnyddio atlasau a mapiau. Defnyddio cyfeiriadau chwe ffigur a mapiau 1: 25 000/1: 50 000. Defnyddio mapiau, cynlluniau a TGC i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth am leoliadau.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle ac Amgylchedd: 0.07a, 1.07a, 1.14a


Gweithgaredd

Mae ysgrifennu creadigol yn rhan o'r gweithgaredd hwn, yn ogystal ag archwiliad manwl o un sgwâr grid yn unig ar fap. Gellir defnyddio teclynnau labelu *Digimap for Schools* wrth ysgrifennu, neu gallwch ei argraffu a gwneud y dasg ysgrifennu ar wahân.

Dyma weithgaredd lle bydd angen i fyfyrwyr feddwl 'o fewn y bocs' am unwaith.

Cyflwyniad

Edrychwch ar y llun hwn. Llun o beth yw hwn yn eich tyb chi?




Dyma SE8322, sydd wedi'i enwebu fel y sgwâr lleiaf diddorol o fap ar raddfa 1: 50 000. Rhan fach o linell trosglwyddo trydan ac ymyl rhywfaint o destun yw'r cyfan sydd i'w weld yma.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

1 Cam cyntaf y gweithgaredd yw gofyn i'ch myfyrwyr ddefnyddio *Digimap for Schools* i ganfod y 'sgwâr grid mwyaf diflas yn y wlad'. Gellir dod o hyd iddo'n rhwydd drwy deipio SE8322 yn y blwch chwilio. Gall ychwanegu haenau'r grid ychwanegol ar eich map fod o ddefnydd drwy ddewis yr eicon



I weld sut mae'n edrych go iawn, mae ffotograff ohono ar wefan *Geograph* <http://schools.geograph.org.uk/photo/81429>



Officially the dullerest Geograph square in the UK.

Yes really. According to the OS who have scanned the whole of the UK maps by computer, this is the most featureless square in the UK. In the distance there is a row of pylons and one of them stands in the far corner of the square. The land is billiard table flat and there are no drainage ditches in it to speak of. The mud is a rather nice shade of brown. It really is that dull.

Sylwch mai'r 'Deyrnas Unedig' sydd o dan sylw yn nheitl y llun.

Mapiau o Brydain Fawr yw'r Arolwg Ordnans (mae Gogledd Iwerddon yn cynhyrchu eu mapiau eu hunain).


Mae llawer o oedolion yn cymysgu rhwng y Deyrnas Unedig a Phrydain Fawr. Gofalwch bod eich myfyrwyr daearyddiaeth yn deall y gwahaniaeth rhwng Prydain Fawr, y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd Prydain!

Gweler y dolenni isod ar y we.

Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

2 Nawr, gofynnwch iddynt glosio ac fe ddaw i'r amlwg fod llawer mwy o nodweddion ynddo na'r disgwyl. Pa fanylion ychwanegol sy'n cael eu hychwanegu neu eu tynnu drwy glosio neu bellhau? Trafodwch pam nad yw'r manylyn hwn i'w weld ar y map sydd ar raddfa lai.



Dyma olwg mwy clos o'r un sgwâr i ddangos y map ar raddfa 1:25 000.

3 Wrth glosio at fapiau ar raddfeydd uwch, mae llawer o sgwariau grid gwag, ond mae'r wybodaeth a ddangosir yn fanwl dros ben. Er enghraifft:



4 Ar ôl ystyried beth sy'n gwneud sgwâr grid yn ddfilas, dylai'r myfyrwyr fynd ati nawr i ddod o hyd i'r mwyaf diddorol yn eu barn nhw a'i gyflwyno ar gyfer 'Sgwâr y Flwyddyn', gan ddefnyddio'r taflenni a ddarparwyd. Awgrymir i'r holl fyfyrwyr ddefnyddio sgwariau grid 1km ar raddfa 1:25 000, a'u bod yn defnyddio'r ail lefel o glosio, fel bod modd cymharu'r holl ganlyniadau.

Mae angen i'r myfyrwyr ddewis eu sgwariau'n gyflym felly gallech ofyn iddynt wneud hynny erbyn rhyw amser penodol a gallu cynnig awgrymiadau. Dyma rai awgrymiadau:

Castell Caeredin	NT 250 730
London Eye, Tafwys a'r Senedd	TQ 300 790
Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ)	SO 909 220
Alton Towers	SK 070 429
Dinas y Cyfryngau	SJ 799 970

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Dylent ysgrifennu disgrifiad o'u sgwâr sy'n gwneud iddo swnio fel petai'r sgwâr gorau o'r map cyfan. Anogwch y myfyrwyr i ddefnyddio iaith ddisgrifiadol i egluro pam mae'r nodweddion yn drawiadol, yn fawr, yn hardd, yn syfrdanol, ac ati.

Gwobrwywch ymatebion arbennig o greadigol.

Gellir darparu templed gyda dechrau rhai brawddegau ar gyfer y myfyrwyr hynny a allai gael trafferth dechrau gyda darn gwag o bapur.

Mynd gam ymhellach

- 1 Gallech hefyd gynnal y gweithgaredd hwn gyda sgwariau grid yn gorchuddio graddfeydd eraill o fapiau, gan gynnwys OS MasterMap graddfa fawr.
- 2 Gallech leoli'r gweithgaredd yn ardal yr ysgol. Argraffwch fap, torr wch y sgwariau a'u dyrannu ar hap i fyfyrwyr, neu grwpiau o fyfyrwyr. Gofynnwch iddynt ddod o hyd i'r nodweddion gorau yn eu sgwâr ac i dynnu ffotograffau o'r golygfeydd. Dylent ddefnyddio'r teclynnau yn *Digimap for Schools* i greu map A3 sy'n amlygu eu sgwâr ac yn egluro lleoliadau eu ffotograffau. Dylai labeli eraill ddisgrifio'r nodweddion. Arddangoswch y rhain a chynhaliwch bleidlais i benderfynu ar y sgwâr gorau.
- 3 Dylech annog y myfyrwyr i edrych ar *Geograph* <http://schools.geograph.org.uk>

Mae'r ffotograffau ar y wefan hon yn gysylltiedig â sgwariau grid. Os oes ganddynt ffotograffau o'u sgwâr, dylent eu hychwanegu at y wefan a chwblhau disgrifiad llawn. Mae'r Llyfrgell Brydeinig yn archifo eitemau sy'n cael eu lanlwytho ar y wefan hon.

4 Ydy'r sgwâr hwn wastad wedi edrych fel hyn? Pa newidiadau a allai fod wedi digwydd yn ystod yr 20, 50 neu'r 100 mlynedd ddiwethaf?

5 Ystyriwch a oes gan rai sgwariau fantais naturiol yn y gystadleuaeth: a yw sgwariau sydd ger y môr, neu mewn ardaloedd mynyddig, yn well na'r rhai mewn ardaloedd trefol - ydy 'nifer' y nodweddion mewn sgwâr yn gwneud gwahaniaeth?

Dolenni ar y we:

1 Dyma daflen ddwy dudalen y gallwch eu lawrlwytho sy'n egluro system y grid cenedlaethol.

<http://www.ordnancesurvey.co.uk/docs/leaflets/using-the-national-grid-leaflet-for-children.pdf>

2 Mae ffotograffau o bob sgwâr grid ar gael yn <http://schools.geograph.org.uk>

Diolchiadau:

Diolch i Steve Kidd am fy arwain at y 'sgwâr hawsaf i'w ddarllen ar fap', ac i Mark Jones am y syniad o gael cystadleuaeth 'Sgwâr y Flwyddyn'.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_primary
v1.0 Aug 2013

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Sqwâr y Flwyddyn

Byddwch yn gweithio gydag un sgwâr grid sy'n 1 cilomedr sgwâr o ran maint, a byddwch yn defnyddio map graddfa 1:25 000 ar ei lefel closio ehangaf. Agorwch *Digimap for Schools*, trowch y grid ymlaen ac edrychwch ar y map nes dewch o hyd i sgwâr a allai fod yn ddiddorol iawn yn eich barn chi. Cofiwch eich bod yn edrych am rywle sydd â llawer o bethau o ddiddordeb **o fewn y sgwâr o dan sylw** - nid yw'r pethau y gallwch eu gweld **o'r** sgwâr yn cyfrif.


AWGRYM – byddwch yn gwybod bod eich map ar y lefel gywir os cewch ddwy lythyren wedi'u dilyn gan wyth rhif wrth ddefnyddio'r teclyn Cyfeirnod Grid.

Defnyddiwch y teclyn hwn i ganfod Cyfeirnod Grid –   – trowch y grid ymlaen ac i ffwrdd gyda'r teclyn hwn.

I ganfod cyfeirnod grid y sgwâr, bydd angen i chi roi'r teclyn cyfeirnod grid yng nghornel isaf y sgwâr ar y chwith. Dilëwch y ddau rif olaf ym mhob cyfres o bedwar (sero fydd y rhain os ydych wedi gosod y teclyn yn fanwl gywir). Ysgrifennwch ddwy lythyren a phedwar rhif eich sgwâr yma.

--	--	--	--	--	--

Gallech amlygu ymylon eich sgwâr gyda'r teclyn 'Draw an area' (Llunio ardal). Cofiwch ddefnyddio 100% o dryloywder, a dewiswch liw eich amlinelliad a thrwch eich llinell cyn llunio. Mae llinell goch drwchus yn gweithio'n dda.



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Rydych am gyflwyno eich sgwâr grid ar gyfer cystadleuaeth Sgwâr y Flwyddyn. Edrychwch ar y nodweddion sydd i'w canfod yn eich sgwâr. Defnyddiwch y blwch isod i ddisgrifio'n fras pam mae'r nodweddion hyn yn drawiadol, yn fawr, yn hardd, yn syfrdanol, ac ati. Nawr, ewch ati i ysgrifennu disgrifiad sy'n gwneud iddo swnio fel yr un gorau ohonynt i gyd. Byddwch yn greadigol!

Beth am ddylunio tlws sydd wedi'i hysbrydoli gan fap yr Arolwg Ordnans i'r sgwâr buddugol?